CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 5 CHWEFROR 2008

Presennol
Ei theilyngdod Y Maer – Cyng. Myfi Powell-Jones

Cynghorwyr

R M Jones, I C Thomas, W T Owen, R Anderson, H Edwards, H W Roberts, H Gwyn, O T Owen, A W Bohana, W R Owen, M E Wil liams

Gweddïau

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Caplan y Maer Parch G Williams

1. Ymddiheuriadau

Cyng. A Y Williams, Cyng. G Parry

2. Cyhoeddiadau'r Maer

- Noson Gwobrwyo cystadleuaeth Nadolig
- Agoriad swyddogol festri Eglwys Ebeneser
- Cinio dathlu 40 mlynedd Côr Caernarfon yn y Celt
- Cyngerdd mawreddog Côr Caernarfon yn Galeri

3. Datgan Buddiant Personol

W T Owen, R M Jones, H Edwards, W R Owen – cynllunio
Parc Y Dre - W R Owen

4. Eitemau Brys

Llythyr Seiont II
Llythyr aelod o staff
Nodyn CADW i'w drafod ynghyd ac eitem 14
Cofnodion cyfarfod arbennig

5. Cofnodion

Cyng. W T Owen a Cyng. H Gwyn yn cyrraedd 6.05

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 8 Ionawr 2008
ii. Pwyllgor Cyffredinol 22 Ionawr 2008
iii. Cyfarfod arbennig

Penderfynwyd

Derbyn cofnodion i a ii fel rhai cywir

Newid cofnodion Cyfarfod Arbennig i ddarllen "Nodi bod Cyngor Gwynedd yn ceisio trosglwyddo pethau fel"

Clerc wedi nodi amcangyfrif costau ar gyfer projector, camera digidol a pethau dwr- symud ymlaen i brynu'r camera gan ei fod yn rhad a hyn o bryd, adrodd yn ôl unwaith bydd ffigwr pendant ar gyfer y projector

6. Cynllunio

I ystyried y ceisiadau

Penderfynwyd

Anfon rhestr argymhellion i'r awdurdod priodol (gweler amgaeedig)

7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn a'i talu

8. Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

9. Maerolaeth

Enwebu Maer etholedig am y flwyddyn 2008 – 2009

Penderfynwyd

Yn unfrydol i Cyng. R M Jones gael ei ethol i fod yn Maer am y flwyddyn 2008-2009

10. Llythyr Cyngor Gwynedd

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

11. **Llythyr RAF**

Par: Diwrnod y Feteraniaid

Penderfynwyd

Croesawu a caniatáu

12. Llythyr o Ddiolch

Cymorth i Ferched Bangor a'r Cylch

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

13. **Cyngor Iechyd Cymuned**

Adroddiad blynyddol

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

14. **E-bost Paul Massey CADW**

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth ond peidio ymateb

15. Rhybudd o Gynnig

Cyng. O. T. Owen

Penderfynwyd

I ysgrifennu at Cyngor Gwynedd i geisio datrys

16. Polisi Arfbais

Penderfynwyd

Derbyn cynnwys y polisi, a geirio "Dangosir Arfbais Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon gyda caniatâd y Cyngor"

Angen trafod y rhestr o'r sawl sydd eisoes, neu yn dymuno defnyddio'r arfbais yn y Pwyllgor nesaf

17. E-bost – Parc y Dre

Penderfynwyd

Fod y Cyngor yn cytuno gyda'r bwriad i wella Parc Y Dre ac yn cytuno i weithio mewn partneriaeth gyda Cyngor Gwynedd a chyrff eraill i ddatblygu syniadau a chynlluniau er mwyn gwneud ceisiadau ariannol ar gyfer gwireddu'r syniadau. Ond hefyd yn datgan yn glir na all y Cyngor gytuno i unrhyw gytundeb i rannu'r cyfrifoldebau ariannol i gynnal a chadw'r parc i dyfodol cyn yn gyntaf gael amcangyfrif eithaf cadarn o'r costau blynyddol.

18. Cwestiynau

Oes modd cael cyfarfodydd o'r Is bwyllgor Adloniant yn dilyn Pwyllgor o'r Cyngor yn y dyfodol?

Awgrymi'r i'r Cynghorydd roi fel cynnig gerbron y Cyngor

Beth ydi'r sefyllfa ar diweddariad o'r rheolau sefydlog?

Angen ail gyfarfod

Beth ydi'r sefyllfa ynghylch ar ail rhyddfreiniaeth?

Paratoadau dal ar y gweill, disgwyl am dyddiad

19. **Seiont II**

Llythyr o ddiolch, yn nodi y posibilrwydd i'r ymddiriedolaeth golli ei statws fel Amgueddfa Gofrestredig ac yn gofyn am gynrychiolydd ar gyfer cyfarfodydd

Penderfynwyd

Gofyn wrth Cyng. W T Owen gynrychioli'r Cyngor, symud yr eitem i'r pwyllgor nesaf am trafodaeth llawn a c anfon llythyr i Rhodri Glyn Thomas o'r Cynulliad i nodi pryderon

Gorffennodd y cyfarfod am 7.35

Arwyddwyd..... Dy ddiad.....